| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Chwythu'r Chwiban - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith /* Impact assessment |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/ Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *19/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 19/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Er ein bod yn disgwyl i'n holl gydweithwyr, yn fewnol ac yn allanol, fod yn broffesiynol bob amser ac yn cadw lles a diogelwch pob plentyn fel eu prif amcan, efallai y bydd adegau pan na fydd hyn yn digwydd.

Mae'n hanfodol bod holl aelodau'r tîm yn trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â'u rheolwr atebol cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi unrhyw broblemau i gael eu datrys cyn gynted ag y byddant yn codi.

**Datgelu gwybodaeth**

Os byddwch, yn ystod eich cyflogaeth, yn cael gwybodaeth y credwch yn rhesymol sy'n tueddu i ddangos un neu ragor o'r canlynol, **<u>RHAID</u>** i chi ddefnyddio gweithdrefn datgelu gwybodaeth y feithrinfa a nodir isod:

Bod trosedd wedi'i chyflawni, yn cael ei chyflawni neu'n debygol o gael ei chyflawni
Bod rhywun wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y mae'n ddarostyngedig iddi (e.e. EYFP, Isafswm Safonau Cenedlaethol, Safonau Gofal Cenedlaethol)
Bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd
Bod iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn wedi bod mewn perygl, eu bod mewn perygl, neu'n debygol o fod mewn perygl
Bod yr amgylchedd, wedi cael ei ddifrodi, ei fod yn cael ei ddifrodi neu'n debygol o gael ei ddifrodi
Bod gwybodaeth sy'n tueddu i ddangos unrhyw un o'r uchod, yn cael ei chelu'n yn fwriadol neu'n debygol o gael ei chelu.

**Gweithdrefn ddatgelu**

Os yw'r wybodaeth hon yn ymwneud ag amddiffyn/diogelu plant yna dylid dilyn Polisi Amddiffyn/Diogelu Plant y feithrinfa, gan gyfeirio'n benodol at yr adran staff a gwirfoddoli
Pan gredwch yn rhesymol fod un neu ragor o'r amgylchiadau uchod a restrir uchod wedi digwydd, dylech ddatgelu hyn i'ch rheolwr ar unwaith fel y gellir cymryd unrhyw gamau priodol. Pe bai'n amhriodol i wneud datgeliad o'r fath i'ch rheolwr (h.y. oherwydd ei fod yn ymwneud a'ch rheolwr), dylech siarad gyda Swyddog Diogelu'r coleg.
Ni fydd gweithwyr yn dioddef unrhyw anfantais o unrhyw fath am wneud datgeliad o'r fath yn unol â'r weithdrefn hon. I gael rhagor o arweiniad ar ddefnyddio'r weithdrefn ddatgelu, dylai gweithwyr siarad yn gyfrinachol â Rheolwr y Feithrinfa
Bydd unrhyw ddatgeliad neu bryderon a godir yn cael eu trin o ddifrif ac ymdrinnir â hwy mewn modd cyson a chyfrinachol a chaiff ei ddilyn mewn modd manwl a thrylwyr
Bydd unrhyw weithiwr sy'n ymwneud ag erlid gweithwyr sy'n gwneud datgeliad, yn cymryd unrhyw gamau i atal gweithwyr rhag datgelu gwybodaeth neu wneud honiadau maleisus neu ddatgeliadau yn anonest yn destun camau disgyblu posibl a allai arwain at ddiswyddo
Gellir ymchwilio i fethu â dweud am faterion difrifol hefyd ac o bosibl arwain at gamau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo
Gellir barnu bod unrhyw weithiwr rheoli sy'n ymdrin yn amhriodol â mater chwythu'r chwiban (e.e. methu ag ymateb yn briodol trwy beidio â gweithredu mewn modd amserol neu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol) wedi camymddwyn difrifol a allai arwain at ddiswyddo